# Y neidr hunanol

Hunanoldeb / Colli Cyfle / Gweledigaeth

Roedd yr adar oedd yn byw yn y goedwig yn ddu neu yn wyn neu yn ddu a gwyn. Doedd yna ddim un aderyn lliwgar yn y goedwig yn unman. Un diwrnod daeth neidr fawr, werdd ar ei thaith drwy'r goedwig. Doedd yr adar du neu wyn, neu ddu a gwyn ddim yn hoff o'r neidr. Llithrodd y neidr yn araf drwy'r tyfiant ar lawr y goedwig. Gwelodd flodau coch yn tyfu. Dechreuodd eu bwyta fesul un. Ymhen dim roedd hi wedi bwyta'r blodau coch i gyd. Wrth iddi graffu ar ei chynffon gwelodd smotiau coch ar hyd ei chorff, o'i chynffon i'w phen. "Dyna ryfedd," meddai wrthi'i hun, "o ble mae'r smotiau coch wedi dod? Beth bynnag, mae'n nhw'n edrych yn brydferth ar fy nghorff."

Ar ei ffordd gwelodd flodau melyn yn tyfu. Dechreuodd fwyta'r blodau melyn fesul un. Ar ôl iddi orffen bwyta'r blodau melyn edrychodd ar ei chorff. Roedd smotiau melyn ar hyd ei chorff. Roedd y neidr wrth ei bodd. Llithrodd ymlaen drwy'r tyfiant a dechreuodd fwyta pob blodyn oedd ar lawr y goedwig. Y blodau oren! Y blodau glas! Y blodau porffor a blodau o bob lliw dan haul.

Fel yr oedd hi'n dechrau nosi edrychodd y neidr ar ei chorff. Roedd smotiau coch, melyn, glas, porffor, pinc a gwyrdd ar ei chorff. Roedd hi wrth ei bodd, "Fi ydi'r neidr harddaf yn y byd i gyd yn grwn," meddai dros y goedwig. Dechreuodd droi a throsi o gwmpas er mwyn iddi gael gweld ei chorff yn well. Roedd y neidr yn hapus iawn.

Ond, doedd yr adar ddim yn hapus. Dyma adar y goedwig i gyd yn hedfan i'r goeden uwchben y neidr. Yr adar oedd yn ddu neu yn wyn neu'n ddu a gwyn. Dyma nhw i gyd yn dechrau canu, sgrechian, chwibanu a thrydar. "Edrych di yma, neidr anghynnes, beth wyt ti wedi wneud. Rwyt ti wedi bwyta blodau'r goedwig i gyd. Does yna ddim lliw ar ôl yn unman. Mae pob rhan o'r goedwig yn wyrdd yn awr," meddai'r adar i

gyd yn wyllt. “Neidr hunanol wyt ti.”
Gwyddai’r neidr bod yr adar i gyd yn dweud y gwir. Llithrodd y neidr yn araf i’r tyfiant. Arhosodd yno i feddwl. Dechreuodd ysgwyd ei hun ac yn sydyn wrth iddi fwrw ei chroen dechreuodd y smotiau syrthio oddi ar ei chorff fesul un. Cyn pen dim roedd blodau lliwgar yn ymddangos yn y goedwig unwaith eto. Llithrodd y neidr yn ei chroen newydd, croen gwyrdd fel o’r blaen, ar hyd llawr y goedwig.
Roedd hi’n falch bod yr adar wedi dangos iddi pa mor hunanol oedd hi.

O Dduw, mi ydw i yn blentyn hunanol iawn, o bryd i’w gilydd. Wnei di fy helpu i fod yn blentyn gwahanol. Amen.

✦ Rhestrwch y pethau sy’n eich gwneud chi yn blentyn hunanol.
✦ Beth fedrwch chi ei wneud i helpu pobl eraill?